LABEL WEN – COD YMDDYGIAD

AMCAN

Dylai pawb ddisgwyl cael bod yn rhydd o aflonyddu, aflonyddu rhywiol a bwlio a chael eu trin â thegwch, urddas a pharch.

Mae'r Cod hwn yn darparu arweiniad ymarferol ac yn cyflwyno templed y mae modd ei addasu i'r amgylchiadau gan gwmnïau ac unigolion sydd eisiau hyrwyddo gweithle diogel ac iach lle y caiff pawb o'r gweithwyr, waeth beth yw eu rhyw a'u statws, eu trin â thegwch, urddas a pharch. Dylai gael ei rannu'n eang ac amlwg gan y rhai sy'n ymgysylltu â'ch gwaith gan gynnwys [cyflogeion, sefydliadau partner, darparwyr gwasanaeth, hyfforddeion, gwirfoddolwyr, rhai sy'n dod i glyweliadau [ychwanegwch / addaswch fel sy'n briodol].

Os ydych yn dod ar draws aflonyddu, aflonyddu rhywiol neu fwlio, fe'ch cynghorir i gymryd y camau priodol fel a amlinellir isod.

BETH YW AFLONYDDU RHYWIOL?

Caiff aflonyddu rhywiol ei ddiffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel ymddygiad digroeso sy'n ymwneud â'ch 'nodweddion gwarchodedig' sydd â'r diben neu'r effaith o ymyrryd â'ch urddas, neu greu amgylchedd ichi sy'n frawychus, cas, diraddiol, bychanol neu ymosodol. Mae aflonyddu hefyd yn golygu ymddygiad digroeso o natur rywiol sydd ag iddo'r un diben neu effaith.

FFURFIAU O AFLONYDDU RHYWIOL

Gall llawer o ffurfiau fod i aflonyddu rhywiol yn y gweithlu – corfforol, geiriol neu di-eiriau – a gallai gynnwys y canlynol, er enghraifft yn unig (nid yw hyn yn rhestr gyflawn):

a) Ffurfiau corfforol o aflonyddu rhywiol megis unrhyw gyswllt digroeso, yn amrywio o gyffwrdd bwriadol, ac anwesu, i ymosod rhywiol neu dreisio.

b) Ffurfiau geiriol o aflonyddu rhywiol gan gynnwys sylwadau digroeso sy'n gymdeithasol a diwylliannol amhriodol ag iddynt naws rywiol megis jôcs sy'n awgrymog yn rhywiol neu sylwadau am wisg neu gorff rhywun, wedi'u gwneud yn eu presenoldeb neu wedi'u cyfeirio atynt. Maent hefyd yn cynnwys cynigion cyson a cheisiadau digroeso neu wahoddiadau personol cyson i fynd allan.

c) Mae ffurfiau di-eiriau o aflonyddu rhywiol yn cynnwys ystumiau digroeso, iaith corff awgrymog, dinoethiad anweddus, golygon anllad, winciau mynych, ac ystumiau â'r bysedd.

d) Mae hefyd yn cynnwys arddangos, yn ddigroeso, ddeunyddiau pornograffig, lluniau a gwrthrychau amlwg rywiol, arbedwyr sgrin neu bosteri, yn ogystal ag e-byst, nodiadau neu negeseuon testun amlwg rywiol.

BETH YW YMOSODIAD RHYWIOL?

Os yw rhywun yn cydio neu'n cyffwrdd ynoch yn fwriadol mewn ffordd rywiol nad ydych yn ei hoffi, neu y cewch eich gorfodi i gusanu rhywun neu wneud rhywbeth arall rhywiol yn erbyn eich ewyllys, mae hynny'n ymosodiad rhywiol.

Mae hyn yn cynnwys cyffwrdd rhywiol yn unrhyw ran o gorff rhywun, ac nid yw'n gwneud gwahaniaeth p'un a ydych yn gwisgo dillad neu beidio. Gall unrhyw un ddioddef o ymosodiad rhywiol a gall dynion a menywod gyflawni ymosodiad rhywiol.

BETH YW CYDSYNIAD?

Ni all cydsyniad byth gael ei dybio, hyd yn oed mewn perthynas neu briodas. Nid oes ots beth oeddech yn ei wisgo ar y pryd, na sut oeddech yn ymddwyn – mae rhyw heb eich cydsyniad yn achos o dreisio.

Efallai na allech roi eich cydsyniad os oeddech o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, heb ddeall beth oedd yn digwydd, neu'n cysgu. Os nad oes gennych y galluedd i roi eich cydsyniad, nid oes modd ei dybio.

Mae gennych yr hawl i newid eich meddwl – os oeddech eisiau cael rhyw i ddechrau ond wedyn yn penderfynu'n ei erbyn, mae hynny'n iawn ac nid oes gan neb yr hawl i'ch gorfodi i barhau. Os nad yw'n rhoi'r gorau iddi, mae'r hyn y mae'n gwneud yn ymosodiad rhywiol neu'n dreisio.

Oedran cydsynio yn y Deyrnas Unedig yw 16, ac ni all plentyn o dan 13 oed gydsynio'n gyfreithiol i unrhyw weithgarwch rhywiol.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Caiff unrhyw un sy'n gweithio fel cyflogai, contractwr, gweithiwr asiantaeth neu ddarparwr gwasanaeth arall, hyfforddai neu wirfoddolwr sy'n credu eu bod wedi bod yn darged aflonyddu rhywiol eu hannog i hysbysu'r aflonyddwr honedig yn eiriol neu'n ysgrifenedig eu bod o'r farn bod ymddygiad o'r fath yn ddigroeso ac ymosodol a bod yn rhaid rhoi'r gorau iddi.

Os nad yw'r person sy'n gwneud y gŵyn yn dymuno cyfathrebu'n uniongyrchol â'r aflonyddwr honedig, neu os y bu'r fath gyfathrebu'n aneffeithiol, anogir yr achwynydd i adrodd am yr ymddygiad digroeso cyn gynted â phosib [naill ai gan ddilyn gweithdrefn gwynion y sefydliad y mae'n gweithio iddo / wedi'i gontractio iddo neu i aelod uwch o'r cwmni y mae'n gweithio iddo – fel arfer y Cynhyrchydd, Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr y Cwmni. Addaser fel sy'n briodol]

Caiff ei gynghori i'r cwmni contractio gylchredeg eu gweithdrefn gwynion cyn gynted ag sy'n ymarferol yn y broses recriwtio neu ymgysylltu; gan gynnwys dolen yn eu contractau ymgysylltu, neu gynnwys y wybodaeth hon ar eu gwefan.

Yn ychwanegol at adrodd am bryderon o aflonyddu rhywiol, fel uchod, gallai'r cyflogai, contractwr, gweithiwr llawrydd, gweithiwr asiantaeth, hyfforddai neu wirfoddolwr sy'n credu iddynt fod yn destun aflonyddu rhywiol, ddewis ceisio datrysiad naill ai drwy sianeli anffurfiol gan gynnwys cymodi, cyfryngu, cwnsela neu drafodaethau anffurfiol, neu drwy ymchwiliad ffurfiol.

Caiff ei gynghori i bawb fod yn ymwybodol o'r potensial o aflonyddu rhywiol a'i atal lle bynnag y mae'n bosib – hynny yw, cadw llygad am eraill.

Caiff unigolion eu hannog i godi'u pryderon gyda'u cyflogwr/contractwr, undeb, yr heddlu neu gydweithwyr, fel sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau penodol.

ATODIAD: FFYNONELLAU GWYBODAETH DEFNYDDIOL

Manylion gwasanaethau ac adnoddau i'w dosbarthu i'r rhai'r ydych yn gweithio gyda hwy, yn ystyried gweithio iddynt, yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant neu wirfoddoli iddynt neu'n contractio gwasanaethau ganddynt:

O fis Ebrill 2018, bydd Cronfa Lesiannol Sinema a Theledu yn cychwyn ar Linell Gymorth Ffilm a Theledu, a fydd am ddim i unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant ffilm a theledu. Caiff ei gweithredu 24/7 gan staff wedi'u hyfforddi'n broffesiynol sydd ag arbenigedd a phrofiad o gefnogi pobl sy'n wynebu gwahanol anawsterau, o aflonyddu, i iselder a gorbryder, cyngor ar ddyled ac arian, cwnsela arbenigol ar ddibyniaeth, cwnsela profedigaeth, cyngor cyfreithiol a chymorth ariannol. Mae modd cysylltu â Llinell Gymorth Ffilm a Theledu am ddim ar y pwynt cyswllt. Bydd cymorth arbenigol dilynol ar gael, wedi'i deilwra at anghenion yr unigolyn, yn dibynnu ar amgylchiadau ariannol a meini prawf gwasanaeth y diwydiant.

GWASANAETHAU UNDEB

BECTU – www.bectu.org.uk
A yw'r undeb llafur yn cefnogi staff a gweithwyr llawrydd ym Mhrydain sy'n gweithio yn sectorau'r cyfryngau ac adloniant? Chwaraewn rôl bwysig wrth gynrychioli a hyrwyddo budd pennaf gweithlu'r diwydiant – ym meysydd darlledu, ffilm, cynhyrchu annibynnol, theatr, y celfyddydau, y cyfryngau digidol a meysydd cysylltiedig.

Equity – www.equity.org.uk
Equity yw'r undeb llafur ym Mhrydain ar gyfer perfformwyr ac ymarferwyr creadigol proffesiynol.
Mae'n cynnig arweiniad i ddangos beth gallwch wneud i atal unrhyw un yn eich gweithlu rhag ymddwyn yn wael tuag atoch:

https://www.equity.org.uk/documents/cwc-guidelines-for-freelance-members/

CYNGOR CYFREITHIOL AM DDIM

Boudica Films - www.boudicafilms.co.uk/contact/
Mae Boudica wedi lansio bathodyn "No Predators", cod ymddygiad a gwasanaeth cyngor cyfreithiol cychwynnol am ddim i unrhyw weithwyr proffesiynol ym maes ffilm sydd wedi dioddef o aflonyddu rhywiol, camdriniaeth neu ymosodiad.

Cyngor ar Bopeth
Mae gan wasanaeth Cyngor ar Bopeth lawer o wybodaeth am ddim, sydd i'w gweld fan hyn:
https://www.citizensadvice.org.uk/wales/family/gender-violence/rape-and-sexual-assault/

Yn cynnwys:
Adrodd ar achos o dreisio neu ymosodiad rhywiol i'r heddlu:

Os ydych yn dymuno adrodd ar fater i'r heddlu, gallwch ofyn i'ch heddlu lleol a oes ganddynt swyddog cyswllt troseddau rhywiol wedi'u hyfforddi'n arbennig.

Os nad ydych yn barod i siarad gyda'r heddlu:

Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r hyn rydych eisiau i ddigwydd, gallwch fynd i Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC). Yn y SARC, gallwch gael cyngor, gwneud datganiad, rhoi samplau fforensig, derbyn cymorth meddygol (gan gynnwys profion ar gyfer clefydau a drosglwyddir yn rhywiol a beichiogrwydd) heb orfod hysbysu'r heddlu.

Caiff y dystiolaeth fforensig ei storio yn y SARC rhag ofn y byddwch eisiau hysbysu'r heddlu o'r treisio yn y dyfodol (wedi'i ddyfynnu o wefan Cyngor ar Bopeth a'i gyfieithu)

Dewch o hyd i'ch Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) agosaf fan hyn:
https://www.nhs.uk/livewell/sexualhealth/pages/sexualassault.aspx

GWASANAETHAU CYMORTH A CHYNGOR

Cymorth i Ddioddefwyr - https://goo.gl/vY5NFW

Cymorth cyfrinachol am ddim i'ch helpu i symud y tu hwnt i effaith troseddu (maent yn cynnig ystod lawn o wasanaethau ar gyfer amrywiaeth o droseddau). Maent hefyd yn cynnig cyngor ar adrodd trosedd:

Adrodd trosedd: https://www.victimsupport.org.uk/crime-info/reporting-crime

RAPE Crisis: www.rapecrisis.org.uk

Elusen genedlaethol a chorff ymbarél ar gyfer rhwydwaith o aelodau annibynnol – Canolfannau Argyfwng Trais.

Mae'r wefan hon yn darparu cymorth os ydych wedi dioddef o dreisio, cam-drin plant yn rhywiol, a/neu unrhyw fath o drais rhywiol, a manylion eich Canolfan Argyfwng Trais agosaf; gwybodaeth i ffrindiau, partneriaid, perthnasau a phobl eraill sy'n cefnogi rhywun sydd wedi goroesi trais rhywiol; gwybodaeth am drais rhywiol i oroeswyr, myfyrwyr, newyddiadurwyr ac eraill, a mwy o wybodaeth am waith Rape Crisis.

Cymorth i Ddioddefwyr:
Cymorth i Ddioddefwyr yw'r elusen annibynnol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan droseddu a digwyddiadau trawmatig yng Nghymru a Lloegr. Mae eu timau arbenigol yn rhoi cymorth unigol, annibynnol, emosiynol ac ymarferol i alluogi pobl i ymdopi ag effeithiau troseddu ac adfer ohonynt. Nid ydynt yn rhan o'r heddlu, y llysoedd, nac unrhyw asiantaeth cyfiawnder troseddol arall. Mae eu gwasanaethau ar gael am ddim i bawb, p'un a oes trosedd wedi'u hadrodd neu beidio, a waeth pryd y gwnaeth ddigwydd.

Gogledd Cymru: 0300 30 30 159
De Cymru: 0300 303 0161
Gwent: 0300 123 21 33
Llwybrau Newydd: gwasanaeth cymorth argyfwng trais a thrais rhywiol: 01685 379 310
Cymorth i Ferched Cymru: 0808 80 10800
Samariaid Cymru: 116 123 (24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos)
Llinell Gymorth Goresgynwyr Gwrywaidd Cenedlaethol: 0808 800 500